SAFLE TREFTADAETH Y BYD
Llechi Cymru
Wales Slate
WORLD HERITAGE SITE

**Bwrdd Partneriaeth Safle Treftadaeth y Byd**
**Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru**

unesco
The Slate Landscape of Northwest Wales Inscribed on the World Heritage List in 2021

**Nodiadau cyfarfod: 04.10.2024**

**Ymddiheuriadau:**
Louise Barker (RCAHMW), Christopher Catling (RCAHMW), Sian Rees (ICOMOS-UK), Andrew Edwards (Prifysgol Bangor), Tom Simone (Cyngor Gwynedd), Gareth Jones (Cyngor Gwynedd)

**Yn bresennol**:
Yr Arglwydd Dafydd Wigley (Cadeirydd), Cyng. Nia Jeffreys (Cyngor Gwynedd, Aelod Cabinet), Sioned Williams (Cyngor Gwynedd), Hannah Joyce (Cyngor Gwynedd), Roland Evans (Cyngor Gwynedd), Lucy Thomas (Cyngor Gwynedd), Nia Haf (Cyngor Gwynedd), Ffion Gwyn (Cyngor Gwynedd), Bet Huws (Cyngor Gwynedd), Lowri Owen (Cyngor Gwynedd), Dan Amor (Cyngor Gwynedd), Kate Robert (Cadw, Zoom), Ashley Batten (Cadw), Michael Bewick (WJ Greaves), Gary Robinson (Prifysgol Bangor), Ceri Williams (Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol), Helen Goddard (Yr Amgueddfa Lechi, Zoom), Jonathan Cawley (Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, Zoom).

| | |
|---|---|
| **Croeso, cyflwyniadau ac ymddiheuriadau**<br><br>• Nodwyd yr ymddiheuriadau a chroesawodd DW bawb gan gynnwys aelodau staff newydd LleCHI LleNI, BH ac FG<br>• Dangoswyd fideo - prosiect cadwraeth Llewyrch o’r Llechi, Ysbyty Chwarel y Penrhyn. Trafodwyd y gwaith adfer a'r gwaith o ddehongli'r prosiect<br>• **Gweithredu DA**: cylchredeg dolen i'r fideo, MB a JC eisiau ei rannu ar y cyfryngau cymdeithasol | **DA:** cylchredeg y fideo |
| **Cofnodion y cyfarfod blaenorol a materion yn codi**<br><br>• **Gweithredu, Llechi Cymru**: Llechi Cymru i symud ymlaen gyda ffurfio rhwydwaith swyddogion cyfathrebu<br>• Rhoddodd JC ddiweddariad i'r grŵp ar y sefyllfa ym Mhlas Tan-y-bwlch, cytunodd i roi diweddariadau pellach wrth i fwy o wybodaeth ddod i'r amlwg. Atgoffwyd yr aelodau fod yr adeilad yn rhan o gydran 5, cydnabyddodd JC hyn | **Llechi Cymru**: creu rhwydwaith cyfathrebu |
| **Partneriaeth Llechi Cymru: strwythur newydd**<br><br>• Crynhodd RE yr adborth oedd wedi'i dderbyn (drwy'r gweithdai) ar y strwythur llywodraethu newydd arfaethedig i Lechi Cymru ac aelodaeth y bartneriaeth (cylchredwyd crynodeb ysgrifenedig o'r adborth gyda'r agenda)<br>• Roedd y newidiadau'n cynnwys:<br>- Cyfathrebu mwy effeithiol (e.e. rhwng is-grwpiau a'r bwrdd)<br>- Gwell cynrychiolaeth ar lefel y bwrdd<br>- Ffurfio grŵp gweithredu sy'n adrodd i fyny i'r bwrdd, a hefyd i | |

| | |
|---|---|
| weithredu fel grŵp rheoli prosiect ar gyfer LleCHI LleNI<br>- Gofynnwyd a ydym yn treulio digon o amser yn trafod risg<br>- Y grŵp gweithredu newydd i drafod risg (yn cynnwys cofrestr risg a strategaeth risg) ac adrodd yn ôl i'r bwrdd. Codi risgiau amlwg i lefel y bwrdd<br>- Y Bwrdd i ganolbwyntio ar wneud penderfyniadau ar lefel strategol<br>- Llai o gyfarfodydd y bwrdd partneriaeth, gyda'r potensial i rai gyfarfodydd fod yn thematig<br>- Ffordd newydd o ddiweddaru aelodau - dogfen ddiweddariad chwarterol (fydd hefyd yn gallu ategu'r monitro a chyfathrebu ehangach)<br>• **Gweithredu DA**: trafod cynrychiolaeth ar gyfer yr iaith Gymraeg gyda NH, gan gynnwys y posibilrwydd o wahodd Menter Iaith Gwynedd i eistedd ar yr Is-Grŵp Buddion<br>• Ailadroddwyd yr angen i sicrhau cynrychiolaeth effeithiol ar lefel y bwrdd: dylai cynrychiolwyr o'r gymuned a'r sector preifat ddylanwadu safbwynt y bwrdd ar faterion<br>• Roedd angen cynrychiolaeth o blith Tirfeddianwyr hefyd<br>• Roedd angen synergedd rhwng y strwythur gweithredol hwn a'n strategaeth twristiaeth ac ymwelwyr<br>• Mae angen i ni fod yn glir ynghylch rolau aelodau<br>• Roedd angen i raglenni'r is-grwpiau gyd-fynd â rhaglenni'r bwrdd i osgoi dyblygu<br>• Cymeradwyodd y Bwrdd symud ymlaen â'r newidiadau hyn | **DA:** siarad gyda NH, holi Menter Iaith |
| **Symleiddio cynllun gweithredu STyB**<br><br>• Amlinellodd DA y gwaith oedd yn digwydd ar hyn o bryd ar symleiddio cynllun gweithredu STyB. Byddai hyn hefyd yn berthnasol i'r adolygiad ar y cynllun rheoli STyB y flwyddyn nesaf<br>• **Gweithredu RE:** cysylltu â'r brifysgol am ddiweddariad ar eu gwaith yn edrych ar effaith y statws STyB ar iaith. Roedd NH yn hapus i fod ynghlwm â hwn a byddai'n canfod y wybodaeth sydd gennym eisoes ar hyn. **Gweithredu DA**: i gynnwys yr eitem hon wrth gysylltu â NH<br>• Roedd eisoes lawer o elfennau am y Gymraeg fel rhan o'r ffordd mae Llechi Cymru yn gweithredu, yn enwedig o ran y prosiect LleCHI LleNI<br>• Gallai gwaith RCAHMW ar enwau lleoedd Cymraeg fod yn eitem yn ystod y cyfarfod blynyddol a'r adroddiad blynyddol. **Gweithredu DA:** cysylltu â RC, gwneud yn siŵr bod digon o le ar agenda'r cyfarfodydd blynyddol<br>• Roedd iaith yn rhan greiddiol o strategaeth ddehongli newydd yr amgueddfa<br>• Bu'r sesiwn enwau lleoedd diweddar yn llwyddiant (Cwmystradllyn: Parc Eryri, RCAHMW, Llechi Cymru) | **RE:** cysylltu â'r brifysgol<br>**DA:** cysylltu â NH<br><br>**DA:** cysylltu â RCAHMW |
| **Diweddariad STyB**<br><br>• Rhannodd HJ y ddogfen ddiweddaru newydd - derbyniwyd cymeradwyaeth gyffredinol iddi<br>• Roedd y ddogfen yn cael ei defnyddio yn lle diweddariadau llafar gan arbed amser<br>• Gellid ehangu'r ddogfen - gan gynnwys ei defnyddio'n ehangach fel rhan o gyfathrebu a monitro<br><br>**Diweddariad is-grŵp cadwraeth** KR<br><br>• Cytunodd y Bwrdd i gais KR i rannu'r llyfryn Gofalu am Dirweddau Llechi yn y cyfarfod blynyddol | |

| | |
|---|---|
| • Y Bwrdd i drafod y ffordd orau o ddosbarthu'r llyfryn, gallent hefyd edrych ar gylchredeg y llyfryn canllaw arddull yn ehangach<br>• **Gweithredu DA**: cysylltu â JC ac MB o ran cylchredeg y llyfryn yn ehangach i geisio cyrraedd cynulleidfa ehangach (masnachol, twristiaeth)<br>• Hoffai KR weld y llyfryn yn cael ei ddosbarthu i gwmnïau adeiladu<br>• Gallai prosiect LleCHI LLeNi helpu gyda dosbarthu<br>• Mae fframwaith dosbarthu o fewn Cyngor Gwynedd<br><br>**Diweddariad is-grŵp buddion** MB<br><br>• Roedd cyfarfod diweddar o'r is-grŵp Buddion yn gadarnhaol<br>• Roedd yn cynnwys cyflwyniad gan Dorothea Pumped Hydro a allai hefyd ymddangos mewn cyfarfod is-grŵp Cadwraeth<br>• Diweddariad ar lwybr teithio Llechwedd<br>• Adroddiadau o droseddau treftadaeth o rai cydrannau - trafodwyd<br>• a ddylai'r bwrdd gyflwyno gwybodaeth am hyn i Heddlu Gogledd Cymru<br>• Roedd y problemau hyn yn haeddu trafodaeth a gweithredu pellach, ac roeddent yn plethu gyda'n negeseuon a'n cyfathrebu, ar lefel strategol Roedd lle i drafod hyn fel pwnc yn un o'n cyfarfodydd thematig<br>• Nid oes angen i ni adrodd i'r bwrdd cyn symud ymlaen ar lefel weithredol gyda materion fel hyn<br>• Nid oedd panel troseddau treftadaeth Gogledd Cymru wedi cyfarfod ers rhai misoedd<br>• KR: fodd bynnag, roedd troseddau treftadaeth *yn* ymgyrch fyw - yr arweinydd yw Christine James, Heddlu Gogledd Cymru. Roedd hi'n hanfodol bwysig fod troseddau treftadaeth yn cael eu hadrodd yn y modd cywir er mwyn sicrhau cofnodi'r ystadegau'n gywir. Un ffordd yw defnyddio'r hashnod #OpHertiageCymru trwy'r cyfryngau cymdeithasol<br>• **Gweithredu KR**: gofyn a all DA fynychu'r cyfarfod troseddau treftadaeth cenedlaethol nesaf<br>• **Gweithredu DA**: mynychu'r cyfarfod uchod ac asesu opsiynau o ran lledaenu gwybodaeth ar sut i adrodd am ddigwyddiadau<br>• Rhoddodd MB ddiweddariad ar y digwyddiad brecwast busnes sydd i ddod | **DA:** cysylltu â JC a MB<br><br>**KR:** cysylltu â James Berry, Cadw<br>**DA:** mynychu'r cyfarfod |
| **Cyfarfod blynyddol Llechi Cymru**<br><br>• 21/11/2024, Pant Du, Penygroes: 4:30 – 7:00pm<br>• Yn bwrw ymlaen gyda'r trefniadau<br>• Bydd yn cynnwys cynrychiolaeth leol<br>• Bydd yn cynnwys eitem neu stondin ar waith RCAHMW ar enwau lleoedd Cymraeg | |
| **Unrhyw fater arall**<br><br>• Roedd diweddariad ar gynnydd yn yr Amgueddfa Lechi – roedd yr wythnos ffarwel cyn i'r amgueddfa gau ar gyfer gwaith adnewyddu yn nesáu | |
| **Dyddiad y cyfarfod nesaf**<br><br>• I'w gadarnhau (Mawrth 2025) | |